**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Cymru Ddwyieithog - Dehongliad a Goblygiadau**

1. **Cefndir**

Mae penderfyniadau ynghylch Cymru ddwyieithog wedi cael eu pasio gan y

Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed ac wedi eu cymeradwyo gan y Cyfarfod Llawn. Gweler y rhain isod. Yn ystod cyflwyniadau a thrafodaethau yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Diwylliant, bu Aelodau yn chwilio am eglurhad o ystyr y term 'Cymru ddwyieithog'. Pwrpas y papur yma yw darparu diffiniad, fel sail i drafodaeth. Bwriedir y bydd y ddau bwyllgor yn cytuno ar ddiffiniad i'w gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

**2. Penderfyniadau'r Cynulliad**

**Dydd Mercher Chwefror 16, 2000**

Cafwyd cynnig gerbron y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl-16:

*Mae’r Pwyllgor yn croesawu dogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg: Gweledigaeth a Chenhadaeth 2000 - 2005 fel cyfraniad pwysig i’r dasg o lunio strategaeth er mwyn sicrhau adfywiad yr iaith Gymraeg a chreu Cymru ddwyieithog. [...]*

*Noda’r Pwyllgor y bydd gwireddu tasg mor uchelgeisiol â chreu Cymru gyfan gwbl ddwyieithog yn golygu llunio strategaeth gydlynol, yn seiliedig ar dargedau, o’r math a ddisgrifiwyd yn nogfen y Bwrdd.*

*Mae’r Pwyllgor yn cefnogi’n daer y nod o greu Cymru ddwyieithog fel nod cenedlaethol cyraeddadwy, a dymuna weld gweithredu strategaeth effeithiol er mwyn sicrhau y gwireddir y nod hwn.*

**Gorffennaf 4, 2000**

Cyfarfod Llawn y Cynulliad:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

*1 Yn nodi'r ymrwymiad yn nogfen 'Gwell Cymru' i feithrin manteision dwyiethrwydd*

*2 Yn cydnabod cyfraniad sefydlu S4C a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Gymru, ac yn croesawu'r camau cadarnhaol eraill a ddeilliodd o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.*

*3 Yn croesawu'r cynnydd pellach a wnaethpwyd o ran yr iaith Gymraeg ym mlwyddyn gyntaf datganoli, sydd wedi cynnwys:*

- *gweithredu'n llawn ofynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion di-Gymraeg;*
- *Llywodraeth y DU yn llofnodi'r Siarter Ewropeaidd dros Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol;*
- *cynyddu adnoddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghylch cyllideb 1999-2000.*

*4 Yn cadarnhau'r penderfyniad a wnaethpwyd yn y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ar 16 Chwefror*

*5 Yn galw ar y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 oed i neilltuo amser yn ei flaenraglen waith cyn gynted ag y bo modd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o bolisi'r iaith Gymraeg er mwyn llunio strateggaeth ar gyfer y dyfodol; ac*

*6 yn croesawu'r cyfle a gynigir gan yr adolygiad arfaethedig, a gynhelir bob pum mlynedd, i ystyried yn fanwl weithgareddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'i ddull o weithredu.*

*7 Yn ymrwymo i fabwysiadu polisïau a fydd yn cynnal cymunedau Cymru ac yn sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg o fewn y cymunedau hynny.*

*8 Yn cadarnhau ei gred bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, ac yn ymrwymo i gydweithredu â chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu cymaint â phosibl o gyfleoedd I bobl ymhob rhan o Gymru gymryd rhan yn niwylliant a bywyd cyhoeddus dwyieithog Cymru: ac*

*9 Yn gresynu nad yw'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn fodlon cymryd y camau angerheidiol i ddiogelu dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain, ac yn galw ar yr Adran honno i ailystyried ei phenderfyniad I beidio ag ariannu'r ysgol bwysig a gwerthfawr hon.*

**3. Diffiniad awgrymiedig o Gymru ddwyieithog**

Yn y Gymru wirioneddol ddwyieithog bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ffynnu ac yn cael eu trin yn gyfartal. Bydd dyfodol yr iaith Gymraeg yn sicr, ac ym mhob agwedd ar fywyd bydd mesurau positif i'w chefnogi ac i hwyluso ei thwf. Bydd hyn yn golygu cael gwared ar bob rhwystr i ddysgu a defnyddio'r iaith fel y gall pob dinesydd, os dymunant, ymlwybro ar hyd continwwm [iaith] i feistroli dwyieithrwydd. Bydd yr amgylchiadau hyn yn creu hinsawdd lle'r ystyrir ei bod yn arferol trosglwyddo'r iaith Gymraeg o genhedlaeth i genhedlaeth, a bydd ymwybyddiaeth gryfach o natur a gwerth dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yng Nghymru a'r byd mawr.